**Arwerthiant Aberduar**

Cynhaliwyd yr arwerthiant blynyddol yn y festri, Nos Fercher 20 Mawrth. Daeth llond y festri ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r noson a brofwyd fel arfer yn llwyddiannus dros ben. Llywyddwyd y gweithgareddau gan y Gweinidog, a'i agor y nswyddogol gan Mr Eryl Jones.

Magwyd Eryl (sy'n byw yng Ngors-goch) yng Nghwrtnewydd lle mae ei fam a'i dad, Brenda ac Elgan, ymhlith ffyddloniaid Seion. Mynychodd ysgol gynradd y pentref cyn symud i Ysgol Uwchradd Llambed ac oddi yno i Brifysgol Caerdydd i astudio cyfrifyddiaeth (*accountancy*) a graddio yno yn y Dosbarth Cyntaf. Ymunodd â chwmni Coopers and Lybrand am gyfnod cyn dychwelyd i agor ei fusnes ei hun yn Llanbydder. Mae'r fusnes yn dathlu ugain mlynedd o fodolaeth eleni, ac yn cyflogi chwech o bobl. Roedd hen fam-gu a thad-cu Eryl yn aelodau ffyddlon yn Aberduar, ac wedi eu claddu yn y fynwent.

Cafwyd noson hyfryd dros ben a chodwyd arian sylweddol ar gyfer coffrau Cymdeithas y Chwiorydd. Diolchwn i Eryl am ei rodd haelionus, ac i bawb a weithiodd mor galed yn paratoi deunyddiau, yn gweini wrth y drws, ar y stondidau ac wrth y byrddau, er mwyn gwneud yr achlysur yn un mor hapus.

Fel arwydd o werthfawrogiad, cyflwynodd y gweinidog rodd i Eryl ar ran Cymdeithas y Chwiorydd.

(Yr adroddiad gan Hannelia, gyda diolch)

**Cyfeiriad a rhifau ffon y Gweinidog**


Y Gilfach,
Heol y Gogledd,
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7JA

Rhifau ffon: 01570 422413
07792 238763



# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** **Ebrill a Mai 2019**


## Trefn oedfaon y Sul

| | | |
|---|---|---|
| **7 Ebrill** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog—Cymun |
| Caersalem | 2.00 y prynhawn | Gweinidog—Cymun |
| Noddfa | 5.00 yr hwyr | Oedfa'r Ieuenctid |
| **14 Ebrill** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Lyndon Lloyd |
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog—Cymun |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Gweinidog—Cymun |
| Brynhafod | 3.00 y prynhawn | Gweinidog—Cymun |

**19 Ebrill—Gwener y Groglith**
Oedfa ddwyieithog yn Noddfa dan ofal Cytûn, 10.30

| | | |
|---|---|---|
| **21 Ebrill (Sul y Pasg)** | | |
| Noddfa | 9.30 y bore | Gweinidog |
| Aberduar | 11.00 y bore | Gweinidog |
| Brynhafod | 1,30 y pnawn | Oedfa ieuenctid y Pasg |
| **28 Ebrill** | | |
| Aberduar | 10.00 y bore | Delyth Morgans Phillips |
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Parchg Stephen Morgan |
| **5 Mai** | | |
| Noddfa | 10.30 | Gweinidog |

Oedfa Sul y Maer
Croeso i aelodau'r Cylch ymuno yn yr oedfa yn Noddfa i sefydlu'r Cynghorydd Rob Phillips yn Faer Llambed

**drosodd/...**

**Trefn y Suliau (parhad)**

**WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL, 12-18 MAI**

**12 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Dylan Lewis |
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog—Cymun |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Gweinidog—Cymun |
| Brynhafod | 3.00 y prynhawn | Gweinidog—Cymun |

**19 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Parchg Jill Tomos– Cymun |
| Brynhafod | 1.30 y prynhawn | I'w drefnu |
| Bethel | 4.00 y pnawn | |

Cymanfa ganu cylch Llambed a Chaeo, Emlyn Davies yn arwain

**26 Mai**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Dwynwen Teifi |
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog |
| Seion | 1.30 y prynhawn | Gweinidog |

**Astudiaeth Feiblaidd**
**Llyfr yr Actau (parhad)**

| | |
|---|---|
| 9 Ebrill | Actau 16:1-40, Y carchar yn Philipi |
| 23 Ebrill | Actau 17: 1-34, Paul yn Athen |
| 7 Mai | Actau 18: 1-28; 19:1-41, Paul yn Corinth ac yn Effesus |

7.15 o'r gloch am yn ail Nos Fawrth, yng nghartref Ann a Densil, Y Gilfach, Heol y Gogledd, Llambed

**Y Cylch Darllen**
**Pori yn y Salmau (parhad)**

| | |
|---|---|
| Mawrth 16 Ebrill | Salmau 100 a 19 'Yr Hen Ganfed' Paned: Hannelia |
| Mercher 8 Mai | Salm 121 – 'Dyrchafaf fy llygaid i'r mynydoedd Paned: Janet |

10.30 bore, Festri Noddfa

UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

**DIWRNOD DATHLU TIMOTHY RICHARD o GAIO**
1845-1919
Cenhadwr China

Dydd Mercher 17 Ebrill



10 y bore: Taith o gwmpas mannau hanesyddol yng nghwm-ni'r Parchg Peter M. Thomas
Dadorchuddio maen coffa yn Ffald-y-Brenin

2 y pnawn: Oedfa Goffa yn Salem, Caio
Llywydd: Y Parchg Densil Morgan
Rhannau arweiniol: y Parchg D. Aled Davies, Llywydd yr Undeb
Anerchaiadau: Y Parchg Peter M Thomas a Dr Andrew T Kaiser, Shanxi, China